

mistaund.

P R E G E T H

Y N E R B Y N

872. h. 33

4

E N L L I B

A Phob Gogan-Air.

Gan JOSIAH REES.

—Absentem qui rodit amicum ;
 Qui non defendit, alio culpante; solutos
 Qui captat risus hominum, famamque dicacis;
 Fingere qui non visa potest; commissa tecere
 Qui nequit; hic niger est: hunc tu, Romane, caveto.

Horace.

Na chno un dyn llwyr ei gefen,
 Ac nac arfer gair drwg-absen :
 Gwaeth nâ chledde llym dau-finiog
 Ydyw enllib dyn celwyddog :—
 Gwaeth nâ marwor poeth yn llosgi,
 Gwaeth nâ saethau un o'r cewri. *Ficer Llanddyfri.*

Gwaethaf un o'r holl wylt-filod
 Yw'r absennwr drwg ei dafod.

Iago ab Dewi.

C A E R F Y R D D I N,

ARGRAFFWYD DROS YR AWDWR GAN J. ROSS.

M DCC LXXVI.

[PRIS TAIR CEINIOWG.]



I A G O iv. 11.

Na ddywedwch yn erbyn eich gilydd, Frod yr.

G Ogoniant neillduol dynolryw, a nôd enwedigol o'u rhagoriaeth ar Greaduriaid direswm, yw'r dawn o ymadrodd. Trwy hwn eu cymhwysfir, nid yn unig i gyfeillachu â'u gilydd, ac i fwynhau manteision a hyfrydwch cymdeithas, eithr hefyd i addoli a molianu Duw, a dal cymmundeb ag ef. *A'r tafod yr ydym yn bendithio Duw, Iag.iii.9.* Ond galarus yw meddwl cynddrwg, a chyn fynyched, y mae'r aelod anrhyydeddus a manteisiol yma yn cael ei gamarfer, a'i droi i'r gwasanaeth gwaelf a mwyaf niweidiol. *A'r tafod hefyd yr ydys yn mellditio dynion, a wnaeth pwyd ar lun Duw; o'r un genau y mae yn dyfod allan fendith a melldit.* Yn lle yr ymadroddion da hynny ag sy'n fuddiol i adeiladu, a pheri gras i'r gwrandawyr, pa mor aml yw'r ymddiddanion drwg hynny, ag sy'n halogi ac yn llygru meddyliau a moesau dynion?

Ym mhliith amrywiol bechodau'r tafod nid y lleiaf, na'r lleiaf cyffredin ysywaeth, yw'r arfer o *enllibio* ac *absennu* dynion: mor gyffredin ydyw, fel "nad oes nem " mawr iawn i'w cael heb fod yn glaf hynodol o'r af " iechyd yma: fe'n boddheir gymaint a hynny gan " ryw felusdra gwenwynig mewn chwilio allan, a chy " hoeddi drygau rhai eraill." Mi a dybiais gan hynny na's byddai yn anfuddiol, eithr yn hytrach ei fod yn dra angenrheidiol, i gynnyg ychydig o bethau at ystyriaeth dynion ynglych yr arfer yma; ac mi a ddewisais yn destun y rhybudd hwn o eiddo'r apostol Iago, *Na ddywedwch yn erbyn eich gilydd, frod yr.*

Yr hyn a wâherddir yn y geiriau yma yw, dywedyd unrhyw beth ag y fyddo er niwaid ac anfantais i ddynion

eraill, neu yn tueddu i leihau eu cymmeriad a'u gair da. Yn awr, i drin y matter yma mor eglur ag y gallwyf, mi a geisiaf,

I. Ystyried natur y bai a waherddir yn y testun :

II. Yf achosion pennaf o hono :

III. Cynnygaf rai rhefymmau ac annogaethau i ber-fwadio dynion i ochelyd y bai yma :

IV. Rhai cyfarwyddiadau i'r diben hynny : ac

V. Yn olaf, Ychydig o gynghorion i'r fawl ag fo'n dioddef oddiwrth ddrwg-absen dynion eraill.

I. Ystyriwn natur y bai a waherddir yn y testun. Ac i'r diben hyn, ymofynnwn yn y lle blaenaf pa beth *nid* yw yn waharddedig yn y geiriau, ac yna fe fydd haws i ni weled pa ryw fath *ddywedyd yn erbyn ein gilydd* sydd gennym i'w ochelyd.

I. Ymofynnwn pa beth *nid* yw yn waharddedig yn y geiriau.

(1.) Ni waherddir dim i ni ddywedyd yr hyn a wyddom yn erbyn arall fel *tyftion*, pan alwer arnom trwy awdurdod cyfreithlon. Yn wir y mae tyftio celwydd yn erbyn neb yn beth ag sydd yn waharddedig bob amfer, ac yn drosedd pendant o'r nawfed gorchymyn ; sef *Naddwg gam-dyftiolaeth yn erbyn dy gymmydog*. Eithr y mae dwyn tyftiolaeth gywir yn erbyn arall, nid yn unig yn gyfreithlon, ond ar rai achlysuron yn ddyledswydd an-hepgorol, *Lef. v. 1.* Etto bod yn barod ac yn awyddus i gyhuddo eraill, a dywedyd y drwg a wyddom neu a glywom am danynt, heb ddigon o achos, a golwg ar ateb rhyw ddiben da ; hyn sydd beth beius iawn ac anesgusodol, ac yn nôd sicr o lawer o natur ddrwg, heb ddywedyd dim rhagor.

(2.) Ni waherddir i ni chwaith ddywedyd yr hyn a wyddom yn erbyn dyn, naill ai wrtho ef ei hunan, neu wrth

wrth eraill, gyd â dymuniad cywir i wneuthur daioni iddo; Y mae yn ddyledwydd arnom, pan fo dyn wedi gwneuthur ar fai, i'w rybuddio a'i geryddu o'i blegid, pan y gallom wneuthur, felly gyd â challineb, a golwg ar ateb diben da, Lef. xix. 17. *Gan geryddu teryda dy gymydog, ac na ddioddef bechyd arno.* Ond lle na's gallom gymeryd cymaint a hynny o rydd-did, neu na bo genym un mesur o obaith am lwyddo, ni a ddylem wneuthur bai dyn yn hyspys i'r cyfryw ag fo'n meddu mwy o awdurdod, a digon o ffyddlondeb i'w geryddu yn ol yr achos. Oddi ar yr eglwyddor yma, yr oedd yn beth canmoladwy yn Joseph, i ddywedyd wrth ei dad, am gamymddygiad ei frodyn, Gen. xxxvii. 2. ac felly yr oedd yn y bobl i ddywedyd wrth Eli am ddryg-air ei feibion, I Sam. ii. 23. ac yn y rhai o dî Clôe i hyspysu i'r Apostol fod cynhennau ym mhllith y Corinthiad, I Cor. i. II.

Ond fe weddai i ni gymmeryd llawer o ofal i wybod y gwirionedd o'r peth a ddoder, yn erbyn dyn, cyn y bo i ni fyned ynghylch ei geryddu. neu ddywedyd wrth neb arall am dano. Canys cam tosturus yw cyfrif bai i ddyn ag fo yn rhydd oddi wrtho.* Ac wedi cael sicrwydd digonol am y peth, gyd â chymaint a fwyneidd-dra a thynerwch ag allom, ni a ddylem ddangos yn amlwg nad ym ni ddim yn coffa ei fai o ddrwg ewyllys, neu i ddangos ein hawdurdod; neu'n rhagorïaeth mewn doethineb neu ddaioni; eithr yn unig allan o gariad atto, a dymuniad calonnog i ddwyn oddiamgylch ei wellhâd. Dyma yw y rheol grifft'nogol, Y brodyr, os geddir weddir dyn ar ryw fai; chwy-chwi y rhai ysprydol adgyweiriwch y cyfryw un mewn yspryd addfwynder, Gal. vi. 1.

(3.) Ni waherddir i ni ddywedyd yn erbyn eraill os bydd hynny yn angenrheidiol er amddiffyn ein hunain.

Fe ddigwydd weithiau na allwn ni ddim dangos ein

* " Blin ac annioddefol yw myned ynghylch dyn ag offeryn llym i agor ei gil-ddanneddi, a thynnudant iach allan : Och artaith ! artaith ! Mynnwch wybod yn gyntaf a yw ei ddant yn bwdr. Nid llai poenus ac arteithiol yw gweled un yn hela am anwiredd yn nhŷ y cyflawn." Gwel Pregeth Mr. Daniel Rowland ar gerydd a chariad brawdol.

diniweidrwydd, ac amddiffyn ein hunain oddi wrth yr hyn a ddoder i'n herbyn, heb ddatguddio beiau rhai eraill. A than y cyfryw amgylchiad ni allwn wneuthur felly yn gwbl ddifeius : oblegid os ymadawn ni â'n gair da er mwyn diogelu eiddo ein cymddydog, ni a wnawn lawer o gam â ni'n hunain, ac a estynnwn ein cariad tu hwnt i'r hyn sydd 'sgrifennedig. E' fyddai'n ddigon da pe caid gan ddynion garu eu cymddydogion fel hwynt eu bunain ; ni ofynnir iddynt eu caru yn fwy.

(4.) Y mae hefyd yn gyfreithlon i ni ddywedyd y drwg a wyddom am ddyn, er mwyn *diogelwch* dynion eraill. Os byddwn ni yn gwybod am dano, ei fod yn beryglus i neb ymgyfeillachu ag ef, neu ei fod yn aelod niweidiol o gymdeithas, y mae yn beth cymmwys ac angenrheidiol i'w gynheddau drwg ef gael eu gwneuthur yn adnabyddus, mor belled ag y byddo achos, fel y gallo dynion edrych attynt eu hunain, ac ymgadw rhagddo : ac yn enwedig os bydd yn ceisio cuddio ei ddrygioni dan liw o grefydd a sancteiddrwydd, theitaf i gyd oll yw i ni ddodi ein cyd-ddynion ar eu gocheriad. Ond lle na byddo tebygorwydd amlwg o wneuthur daioni trwy gyoeddri bechoda rhai eraill, pob dyn doeth a da a ddewis bod yn ddistaw.

(5.) Ac yn *olaf*. Nid yw yn anghyfreithlon i ni ddywedyd wrth ryw *gyfaill* mynwesol a ffyddlon am bechoda rhai eraill, yn enwedig eiddo ein brodyr cristi'nogol ; ond i ni wneuthur felly o wir ofal a gofid o'u plegid, ac o blegid yr achos ag fo'n dioddef trwyddyt. Neu os bydd neb wedi cam-ymddwyn tu ag attom ni, ac wedi ein hammharchu a'n niweidio, ni a allwn yn rhydd ddigon fyned at ryw gyfaill profedig ac achwyn wrtho : fe allai y dichon efe roddi i ni gyngor neu gynhorhwy ; o'r hyn lleiaf efe all gydymdeimlo â ni, ac fe fydd hynny yn rhyw faint o gysur i ni, os ni all ef wneuthur dim rhagor.

Yn llyn y mae yn gyfreithlon i ni ddywedyd yn erbyn eraill fel tyfion,—neu gyd â chywir ddymuniad i wneuthur daioni iddynt,—neu er mwyn amddiffyn ein hunain,—neu er diogelwch i ddynion eraill,—neu wrth gyfaill

faill ag allo ein cynnorthwyd neu gydymdeimlo â ni.
Ystyriwn yn nesaf,

2. Pa fath ddywedyd yn erbyn ein gilydd sydd raid i
ni i'w ochelyd.

(1.) Dywedyd am eraill yr hyn a *wyddom nad yw yn
wirionedd*, yn ddiammeu a waherddir yn y testun; a
phechod ydyw o'r lliw duaf.

A'r pechaduriad mwyaf nodedig yn yr ystyr hyn yw,
y rhai a dyngant anudon yn erbyn eraill, ac a ddodant eu
dwylaw gyd â'r annwylol i fod yn dystion unwir, Ecsod.
xxiii. 1. Y cyfryw a hyn ydoedd y meibion hynny i'r
fall, y rhai a ddygasant gam-dystiolaelt yn erbyn Na-
both, gan ei gyhuddo o gabledd yn erbyn Duw a'r bren-
hin; ac Abab hefyd yr un ffunud, am ei fod yn cydsyni
yn y weithred ddrygionus, o herwydd pa hram y dywedir
iddo ymwerthu i wneuthur yr byn oedd ddrwg yng ngolwg yr
Arglywyd, a Bren. xxi. 10, 20.

Ond pa faint gwell neu lai euog yw'r dynion hynny,
ag a ddyfeisiant newyddion celwyddog am eraill; neu a
dderbyniant yn awyddus y cyfryw*, ac a'u cyhoeddant,
er gwybod na bo dim gwirionedd ynddynt. Megis ag y
dywedodd ein Iachawdwr am y *Phariseaid* ag oedd yn
dwyn barn gblaidd yn ei erbyn ef, felly y gallwn nin-
neu ddywedyd am y cyfryw, mai o'u tad diafol y maent,
ac mai trachwantau eu tad a fynnant bu y gunenthur,
Ioan. viii. 44.

(2.) Y mae dywedyd yn erbyn eraill yr hyn a *ddidion*
fod yn wirionedd, ond heb wybod yn sicr pa un a'i fod felly
neu beidio, yn waharddedig hefyd. Fe all hyn ysgafwydd
gael ei gyfrif yn rádd is o ddrwg-absen, ac ymddangos
yn llai gwaradwyddus yng ngolwg y byd, yn enwedig y
rhan anystyriol o hono; ond sicr yw ei fod yn bechyd
mawr, ac yn argoel bob amser o lawer o fyrbwyldra ac
anystyriaeth, ac yn fynych o anghariad hefyd a drwg-
ewyllys.

A 4

(3.) Ac

* Gwel Salm xv. 3.

(3.) Ac yn *olaf.* Y mae yn wahardeddig i ni ddywedyd yn erbyn neb yr hyn a *wyddom* ei fod yn wir, heb ddigon o *achos*. Y mae cyhoeddi beiau neu wendidau dynion, heb olwg ar ateb rhyw ddiben da iddynt hwy neu eraill yn anghyfreithlon. Yr oedd yn cael ei wâhardd gynt dan y gyfraith, *Lef. xix. 16.* Na rodia yn *athrodrwr ymysg dy bobl.* Ac medd *Solomon*, Na fydd dyst beh achos yn erbyn dy gymmydog, *Diar. xxiv. 28.*

sub will rō wvby bocoda

Cyn gadael y pen yma, y mae'n gymmwys i mi ddal sylw, fod gan rai dynion fforddgyfrwys i gablu eraill, a magu drwg-dybiant yn eu herbyn; nid mewn gefiriau amlwg, ond trwy awgrymماu tywyll, ac ymadroddion hannerog dauddyblyg: “A glywsoch chwi, meddant, am hwn neu hon? Nid wyf fuddim ond gofyn; mi a glywais ryw beth, a g y mae yn ddrwg gennys am dudano; yr wyf fyn dewis bod yn ddistaw; gobeithio nad gwir yw'r peth.” — Fel hynny mae malais ddu weithiau, gyda ag wyneb tēg tosturiol, yn brathu enwau da rhai eraill. Arfer gâs gythreulig yw hon, gocheled pob crïstion hi.

II. Cymmerwn olwg ar rai o *achosion* pennaf y pechod hwn. Bodys i'r 30. "Wysg y subbywa mynasegoldeb ym ddiwedd y 13 eiffti. Dynhawng llanerchiwng mib od an bod yng 12 my'r 1. Dynion a ddywedant yn erbyn eu gilydd yn fynych er mwyn difyrwch. 13 hyd is i ny bbinidig a udd ny yd. Aman y llofud bat u eithin. Ar ymro ym ddiwedd y 13. Er mwyn bod ynt gymmeradwy lle byddont, a rhynghu bodd y gyfeillach, hwy a gymmerant lawer o ryddid gyd ag enwau da pobl eraill; a hynny yn fynych ar gost y gwirionedd. Fel hyn, i ateb diben mor ddistadl, ac oddiar egwyddor mor wael ac anheilwng, y mae llawer person rhagorol wedi cael ei ddihatrû o'i urddas a'i air da; yr hyn dan rai amgylchiadau sydd waeth nag angau. *Solomon* a gydmara'r cyfryw i *ddynagiwallgofus a daflo benywynion tân, farthau, ac arfau marwolaeth, ac a ddywed, Onid cellwair yr ydwyf?* *Diar. xxvi. 18, 19.*

2. Fe arweinir dynion yn fynych i'r pechod yma trwy *ymytraeth* yn afreidiol a matterion rhai eraill. Bai ag y mae llawer iawn yn euog o hono, a thrwy hynny yn llithra

llithro i enllib a drwg-absen hefyd, yn fynych yn ddiarywybod iddynt eu hunain. Y maent yn dra ymofyngar ynglych achosion yr holl wlad, fel nad oes gymaint a theulu, na pherson neillduol o fewn eu cyriædð, yn cael diangc yn ddisylw; nac un ystori yn myned heb fod yn eu meddiant hwy mewn byrr amser. Ac nid ydyw yn beth tebygol oll iddynt gael clywed cymaint am eraill yn ddiachos, heb gwympo hefyd eu hunain i'r un bai.

3. Dynion yn fynych a ymollyngant i'r bai yma o eisiau proyll i lunio barn gywir am bethau, neu personau. Hwyia gondemniant weithred, ac a ddywedant yn erbyn yneb a'i gwnaeth, pan ni byddont yn gwybod dim am y matter, nac wedi ystyried yn ddiduedd gymaint ag un amgylchiad perthynol iddo. Nid ydynt yn meddwl, nac yn ymofyn, pa ryw demtasiynau cryfion alsai fod ar ffordd dyn, a'i orchfygu ef; pa gynheddfau da sydd ynddo; neu pa ryw resymmau sylweddol a ddichon fod ganddo ef dros ei ymddygiad, er eu bod yn anadnabyddus iddynt hwy, ac fe allai i eraill gan mwyaf. Yn wir prin y mae yn bosibl i ni fod yn rhy wagelog, pa fodd y bo i ni, oddiwrth neb rhyw weithred neu amgylchiad neillduol, roddi barn galed ar un dyn, a goddef i'n serchiadau oerit tu ag atto; oddieithr bod ei ymddygiad cyffredinol ef yn dangos drygioni amlwg.

4. Dynion a ddywedant yn erbyn eu gilydd yn fynych allan o natur ddrwg a malais. Pan y byddo dyn yn hoffi dywedyd yn ddrwg am eraill, y mae yn argoel o fod tymmer ddrwg ynddo ef ei hunan; o blegid o helath-rwydd y galon y llefara y genau, Mat. xii. 34. Y mae y drwg-ewyllys a'r malais ag sydd oddifewn iddo, yn ei dueudu bob amser at yr ochr anghariadus, ac yn ei wneuthur yn llawer mwy parod i gredu, ac i adrodd, a chofio newydd drwg na newydd da. Pan gaffo rhyw beth da a chanmoladwy ei ddywedyd am ryw un, y dyn maleisus a fydd barod i ddywedyd, "Dyna ryfeddod: digon da os " gwir yw: ond braidd yr wyf fi'n ei gredu ef." Neu os bydd iddo addef fod y peth yn wir, a'r weithred ynddi ei hun yn ganmoladwy, etto odid na bydd iddo gweftiyno cywirdeb y diben oddiar pa un ei cyflawnwyd; gan ddywedyd, "Digon gwir, fe wnaeth hwn a hwn y cyfryw " weith-

“ weithred dda, ond nid oes diolch yn y byd iddo, o
 “ blegid yr oedd ganddo ef ryw ddibenion hunanol i’w
 “ hatteb trwy hynny, onid é ni wnelsai efe byth ’mo
 “ honi.” Yr un modd a Satan, yr hwn pan na alsai
 fe ddywedyd dim ya erbyn enw da Job, a grybwylloedd ei
 fod yn hunanol, neu nad oedd ond rhagrithiwr yn y
 cwbl : *Ai yn ddiachos, eb efe, y mae Job yn ofni Duw?*
Cyffwrdd â’r hyn oll sydd ganddo, ac efe a’th felldiga o flaen
dy wyneb, Job i. 9.

5. Y mae dynion lawer gwaith yn dywedyd yn erbyn eraill allan o *gynfigen*. Y mae rhai yn flin ac yn anhappus o achos eu bod yn gweled eraill yn gyfoethoccach, neu’n ddoethach, neu’n well nâ hwynt eu hunain; ac yn lle ymostwng yn ddiolchgar i’r cyflyrau a drefnwyd iddynt, neu ddefnyddio y manteision sy’ ganddynt i gynhyddu mewn doethineb a daioni; ceisio yn ddrygionus a wnat, trwy anair ac enlib, ddodi eraill i ymddangos mor wael a hwythau. A lle byddo cynfigen, yno hefyd yn fynychaf y mae *balchder*. A dynion o’r dymmer yma a edrychant yn waftadol ar y da a gaffo ei ddywedyd am eraill, a’r clod a rodder iddynt, fel cymaint a hynny o golled iddynt eu hunain; ac am hynny, trwy ddywedyd yn athrodgar yn erbyn y cyfryw, ymdrechant i’w dwyn mor isel, a pheri iddynt ymddangos mor ddued ag fo posibl, fel y caffont hwy eu hunain eu dyrchafu, a’u gosod yn y goleuni mwyaf manteisiol.

6. Achos arall o ddrwg absen yn fynych yw tymmer *ymddialgar*. Pan welo dyn, neu pan y meddylio, ei fod wedi cael ei niweidio gan eraill; eu bod hwy wedi dywedyd yn ddrwg am dano, neu wedi ymddwyn yn ddrwg tu ag atto; pa mor barod fydd ynte i geisio talu’r pwyth, trwy gymmeryd rhydd-did i ddywedyd yn galed am danynt hwythau. Y mae yn digwydd yn fynychaf, pan fo ymddial yn gymmeryd lle, fod dyn yn colli’r llywodraeth arno ei hun, a’i anwydau yn cael eu cyffroi dros derfynau; yr hyn a bair iddo edrych ar ei wrthwynebwr mewn goleuni llawer gwaeth nag y dylai. Os digofaint ymddialgar a gaiff eistedd yn farnwr, bydd yn sicr o fawr- ygu y bai, a bod yn rhy chwerw yn ei erbyn. A hyn a gyffry nwydau llidiog y dyn arall, ac felly eir ymlaen mewn

mewn dialedd o bob ochr, fel na wyddus pa bryd na phale y dibennir. Pen neu ddechreu y gynnēn sydd megis ped agorid argae, neu gronfa dyfroedd; am bynny gad ymaith ymryson cyn ymyrryd arni, Diar. xvii. 14.

Rheol rafgorol a roddir i ni gan un gwr yn y matter yma yw, " Bod i ni, tra byddo ein nwydau heb gwbl " oeri, fwriadu dywedyd yr holl dda a wyddom am ein " gwrthwynebwr: ond os ni allwn ni wneuthur hyn, " bod i ni fwriadu ynte na ddywedom ni ddim am dano " ymhellach, nag y byddo hunan-amddiffyniad yn ein " rhwymo."

7. Ac yn olaf. Y mae dynion yn rhy fynych yn dywedyd yn erbyn eu gilydd oddiar *ragfarn anghariadus*, neu zel ddall a *chamfyniol* mewna matterion crefydd. Ffrwythau naturiol yspyd rhagfarnlyd yw barnau culion, a geiriau celyd. A phan y byddo dynion dan lywodraeth y dymmer gyfyng yma, y mae yn eu gwneuthur mor annheg ac mor ffyrnig, fel na ddichon neb anghyttuno â hwynt, nac amrywio yn y mesur lleiaf oddiwrth eu prawf-nodau hwy, heb gael yn ddiattreg eu gosod allan ganddynt fel rhai afiach yn y ffydd, fel hereticiaid, neu dan ryw enw caled a gwaradwyddus arall. A phwy bynnag ni chydrodio â hwy yn yr un llwybr cul, ac ni fynnant weled â'u llygaid hwynt, neu broffesi gwneuthur felly o'r hyn lleiaf, ni phetrusant eu darluniō fel eu gelynion, a gelynion pob daioni, ac ymddwyn tu ag attynt fel y cyfryw*. Ac oddi yma y tarddodd *chwrewedd*, a *llid*, a *dig*, a *llefain*, a *chabedd*, gyd â phob drygioni. Oddi yma y tarddodd yr holl farnau anghariadus condemniol a saethwyd allan fel byllt yspryd drwg, o bryd i bryd, mewn seneddau a chymmanfeydd gweinidogion; pob math o dra-arglyddiaeth ar ddynion mewn matterion o ffydd a chydwybod, a holl erledig-aethau gwaedlyd a barbaraidd eglwys *Rhyfain*, ac eglwyfi eraill: Canys pa eglwys bynnag y bo dynion o'r yspryd anghrist'nogol yma yn perthyn iddi, fe wyddus trwy

* " I lefaru yn ddiuedd (medd Dr. Tillotson) peth cyffredin " ymhilith rhai penboeth o bob plaid, yw'r arfer grachlyd o ddy- " wedyd celwyddau dros y gwirionedd:—" os gwirionedd, yn hytrach na rhyw beth arall, y maent yn ymhel yn ei gylch, ac yn ei amddiffyn mor drwsgl.

ormod o brofiad eu bod yn sicr o droi'n erlidwyf, bydd ond awdurdod yn eu dwylaw.

Ond lle bo yspryd goftyngedig hawddgar crefydd yr IESU yn aros, y mae yn cyd-ddwyn yn ddiwarafun â gwahaniaeth mewn barn; ac y mae pawb, ag sy'n cael eu harwain gan yr yspryd yma, yn derbyn eu gilydd, megis ag y derbyniodd Crist bwysthau, Rhuf. xv, 7. Ac y mae zel y cyfryw yn waftadol yn cael ei thymheru gan y Cariad hynny, ag sy'n dioddef pob dim, ac yn credus, ac yn gobeithio am bob dim, yn y modd mwyaf tyner a ffafrol.

III. Cynnygaf rai rhesymmau ac annogaethau i ber-swadio dynion i beidio dywedyd yn erbyn eu gilydd.

1. Nid oes *dim niweid* mewn rhoddi'r arfer yma heibio, a pheidio adrodd drwg am neb heb ddigon o achos. Ni byddai fe un math o golled nac anfantais i ni ein hunain, nac i neb eraill, pe bai bob rhyw enllib a drwg-absen wedi eu gyrru yn hollol i maes o'r byd. Gan hynny bydded i arfer mor ddiles, yn un peth, gael ei rhoddi fynu. Ac yn wir,

2. Nid yw ymattal rhag absennu dynion ond peth hawdd iawn. Nid yw ef ddim ond i ddyn ffrwyno ei enau. Trwy cyn lleied a hynny o orchest efe a ddichon wneuthur cymmwynas fawr i'w gymmydog; neu o'r hyn lleiaf gall ymgadw rhag gwneuthur iddo anghymmwynas, heb fod mewn un mesur ar golled ei hunan. Hi a ddichon na bo ei amgylchiadau yn y byd ond isel, fel na's gallo wasanaethu ei gyd-ddynion trwy elusennau; *arian ac aur* fe allai *nid oes ganddo* ond ychydig: ond y mae un peth yn sicr yn gorwedd ar ei law ef, rhodded hwnnw cyn helaethed ag allo gyd â chydwybod dda, a hynny ydyw *enw da*, yr hyn *sydd well nac arian ac nag aur*. Efe a ddichon daflu gorchgudd dros amherfeithrwydd a ffaoeddau ei gyd�readuriaid, a son am danynt gyd â dim ffafri a thynerwch ag a allo.

3. Y mae enllibio dynion yn beth *tra niweidiol*. Y mae o'r hyn lleiaf yn achlysur o *ofid* a blinder meddwl i'r fawl fo'n cael ei enllibio: ac onid yw yn greulon ac yn annuriol, yn gystal ac yn anghrist'nogol, i ddodi dyn

dyn mewn poen ac anesmwythder yn ddiachos? Peth dynunol ac anwyl iawn yw enw da, gwell, fel ag y dywed Salomon, *nag ennaint gwerthfawr, a mwy dynunol nô chyfoeth lawer*, Preg. vii. 1. Diar. xxii. 1. A phafwy teilwng a fo neb o air da a chanmoliaeth, mwya teimladwy a fydd efe hefyd o'r golled o hono.

Ond y mae enllib, nid yn unig yn tueddu i ofidio dyn, eithr i'w ddrygu a'i niweidio hefyd. *Haint yw yn fynych a rodia yn y tywyllwch*, neu frath anhyspus yn y dirgel, pan na byddo gan wr cdim cyfleusdra i'w amddifynn ei hunan: neu o bydd ganddo gyfleusdra, nid un o'r pethau mwya hawdd yw galw newydd drwg yn ol, a pheri i'r byd drwg-haws drwg-dybus gredu i'r gwrthwyneb. Ac felly, wedi i wr unwaith gael anair, a hynny yn fynych yn gwbl anhaeddiannol, y mae yn debyg o lynu wrtho dros ei holl fywyd; ac ysgatfydd wrth ei blant hefyd, a phlant ei blant, er anfantais a niwaid nid ychydig.

Y mae enllib hefyd o dueddiad i fagu cynhennau ac ymrysonau. *O ba le y mae rhyfeloedd ac ymladdau yn fynych, ond oddi yma?* Y person fo'n cael ei enllibio ond odid a ddaw i glywed am yr hyn a ddywedasid yn ei erbyn, ac, os bydd o gyfryw yspryd, a gymmer y cyfleusdra cyntaf i dalu'r pwyth; fel nad yw yr enllib ond *dechreu cynnen*. Un athrodwr, yn dyfeisio celwyddau, neu yn tanu newyddion drwg gwirioneddus, eithr wedi eu gwydrroi, sydd ddigonol i afonyddu cymmydogaeth gyfan, a threu anghydfod rhwng y cyfeillion goreu. O gynddrwg canlyniad yw tafod afreolus. *Aelod bychan yw, etto yn ffrostio petbau mawrion: wele faint o ddefnydd y mae ychydig dân yn ei ennyn!* A'r cyfryw dafod tân ydyw, byd o anghyflawnder; *drwg anllywodraethus, yn llawn gwenwyn marwol.*

Ac heblaw y canlyniadau drwg a enwyd, y mae'r athrodwr yn dwyn amryw o anghyfleusderau am ei draws ei hunan. Y mae ef ar y ffodd i wneuthur ei hun yn ddirmygus yn ei gymmydogaeth, ac i gael ei gyfrif a'i drin fel dyn peryglus a niweidiol, ac i'w ochelyd ac ymgadw rhagddo cyn belled ag y galler. Ac y mae hefyd yn ddarostyngedig i gael ei alw i gyfrif, a derbyn yr hyn a ddod-

a ddododd i maes yn ol drachefn ar ei ben ei hun†: canys
 “nid oes braidd un peth ag y mae dynolryw yn ei arfer
 “gyd â mwy o fanylwch cyflawnder, nâ thalu ddrwg am
 ddrwg, neu sen am sen*.

Mewn gair, *Y neb a ewyllysi boffi bywyd, a gweled dyddiau da, ac ymgadw rhag llawer penbleth a gofid, attaliad ei dafod oddiwrth ddrwg, a'i wefusau rhag adrodd twyll,*
 i Pedr iii. 10.

4. Peidio enllibio dynion, eithr bod yn dyner o'u henw da, edrych dros eu gwendidau, a bod yn barod i roddi gair da iddynt hyd ag y bo lle,—dyna'r ffordd i ddiogelu parch a chymmeriad. Tra bo y rhan fwyaf yn dirmygu yr athrodwr, ac yn ceisio ymgadw yn ofalus rhag cyfrinachu ag ef, pawb a garant y dyn a garo adael llonydd i eraill, *heb absennu â'i dafod*; hwy a chwennychant ddiogelu ffafra a chyfeillach y cyfryw un, bydd yna dda ganddynt gael ei gyfarwyddyd a'i help ef mewn cyfyngder, a hwy a ymddiriedant iddo yn siriol ac yn ddi-bryder. A lle byddo un math o ymrafael neu anghydfod, y mae gan y cyfryw un gynnyg da am ddiogelu iddo ei hun heddwch y ddwy blaidd, ynghyd â'u tyb a'u gair da: a phan fyddo efe marw, pawb a'r a adwaenant ei werth a godant, ac a'i galwant yn ddedwydd, ac a alarant am dano.

5. Y mae pawb a rhyw wendidau a beiau ynglyn wrthynt, ac yn ddarostyngedig i gyfeiliorni mewn rhyw ffordd neu gilydd, ac am hynny y mae yn anweddus iawn mewn un dyn i enllibio arall. Pa le mae y gwr perffaith, diniweid, yr hwn sy'n gwbl rydd oddiwrth y cyfeiliornad lleiaf mewn barn, neu'r bai lleiaf mewn buchedd? Pe byddai barnu a dywedyd yn galed am eraill yn gweddu i neb, dyma'r dyn cymhwysaf i gymeryd hynny o rydd-did; fel y dywedodd ein Iachawdwr wrth y Phariseaid ymherthynas i'r wraig a ddaliesid mewn

† Perchen tafod a arfero

Ddweud am bawb y peth a fynno;

Bydd rhaid iddo wrando'n fynych

Lawer peth na bo'n ei chwennych.

* Tilotson.

Lago ab Dewi.

godineb,

godineb, *Yr bwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf garreg atti bi, Ioan viii. 7.* Ond och! *mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro, Iago iii. 2.* ac am hynny y mae mor rheittied i ni wrth dynerwch dynion eraill, ag ydyw i eraill wrth ein tynerwch ninnau. A pha bryd bynnag gan hynny y byddo i ni gondemnio neu farnu eraill, naill ai o blegid eu hegwyddorion, neu ryw dram-gwydd yn eu hymddygiad, yr ydym mewn effaith yn ein condemnio ein hunain. *O herwydd pa ham, medd yr Apostol Paul, diesgus wyt ti, O ddyn, pwyl bynnag wyt yn barnu: canys yn yr hyn yr wyt yn barnu arall, yr wyt yn dy gondemnio dy hun: canys ti, yr bwn wyt yn barnu, wyt yn gwneuthur yr un pethau, Rhuf. ii. 1.*

Pa bryd bynnag ynte y clywom ni fod rhyw frawd neu gymmydog i ni wedi syrthio i ryw fai, yn enwedig os bydd yn y cyffredin o ymarweddiaid da, anweddus iawn yw i ni roddi barn galed arno: fe ddylai y tro, yn hytrach o lawer, gyffroi ein tosturi a'n cyd-ymdeimlad, dwyn ar gof i ni ein gwendid a'n perygl ein hunain, a'n rhybuddio i weithio allan ein iecbydwriaeth ein hunain trwy ofn a dychryn, Phil. ii. 12. *Yr bwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio, I Cor. x. 12.*

6. Da y gwnai y fawl a garant ddywedyd yn erbyn eraill, i ystyried, Pa un a *ddewisent hwy* gael eu *trin felly* gan eraill, neu beidio? Na wnaint yn ddiammau: Pa mor èon bynnag y gwnelont hwy ag enwau da pobl eraill, hwy a fynnant i eraill fod yn dyner o'r eiddyd *hwy*. Adolwyn, ddyn athrodgar, ymrefymma fel hyn â thi dy hun: “A fyddai da gennyf i'm cymmydog ddywedyd “ yn galed am danaf fi, a duo a difwyno fy enw da i? “Na fyddai: eithr mi a'i cyfrifwn yn niwaid ac yn gam “ mawr. Pa ham gan hynny ynte y bydd i mi ddywedyd “ yn ei erbyn ef yn afreidiol?” — Nid oes un dyn a garai i gelwyddau gael eu llunio a'u cyhoeddi yn ei erbyn ef, neu i'w weithredoedd gael eu dodi maes yn y lliw gwaethaf a mwyaf anffafrol. Nid oes un dyn a garai gael ei enllibio ei hunan, a'i wneuthur i ymddangos yn wael ac yn ddiystyrlyd yngolwg pobl eraill. Pa ham ynte yr ymddwyn ef yn llyn tu ag at ddyn arall? Pam, heb achos, y dywed efe ddim ag fo'n tueddu er niwaid iddo.

iddo. Yn ddiau ymddygiad mwy gwrthun ac anghysion ni ddichon bod. Ac ni all bod un peth yn fwy cym-mwys a rhesymmol, nac i ni ymddwyn tu ag at eraill yr un modd ag y dymunem i eraill ymddwyn tu ag attom ninnau: *Yr hyn yn briodol iawn a elwir yn rheol euraidd ein Iachawdwr. Pa bethau bynnag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy*, Mat. vii. 12.

7. Ac yn olaf. Y mae llawer o le i ammeu a chwef-tiyno crefydd y rhai hynny, ag sy'n dilyn yr arfer ddrwg o enllibio ac absennu eu cyd-ddynion. Canys, medd yr apostol Iago, *Os yw neb yn eich mysg yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, heb attal ei dafod* —, ofer yw crefydd hwnnw, Pen. i. 26. Ac medd yr un Apostol mewn man arall, Pen. ii. 10. *Pwy bynnag a gadwo'r gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl*; h. y. Y neb a drofeddoyn reddfyl neu'n barhaus gymaint ag un gorchymwyn o'r gyfraith, y mae yn euog o ddiystyr uwdurdod ei hawdwr hi, ac yn rhoddi prawf amlwg o galon ddrwg; pa mor lân a difeius bynnag y byddo ei broffes ef ar gyfrifon eraill.

Yn awr yr ail orchymwyn mawr o'r gyfraith yw, bod i ni garu ein cymmydog fel ni ein bunain, Mat. xxii. 39. ac fe'n gwaherddir yn bendant i ddywedyd yn erbyn ein gilydd. Ac medd yr Apostol at yr Epheciaid, *Tynner ymaith oddi wrthych bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabledd, gyd â phob drygioni: a byddwch gymmwynasgar i'w gilydd, yn dosfuriol, yn maddeu i'w gilydd, megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau*, Eph. iv. 31, 32. Ac y mae yr Apostol wrth sgrifennu at Timotheus, yn dywedyd fod cynfigen, ymryson, cableddau, drwg-dybiau, a'r cyffelyb bethau, yn anghytunol a'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, 1 Tim vi. 4. Ac wrth y Corinthiaid efe a ddywed, *Pe llefarwn â thafodau dynion ac angylion, ac heb fod gennyf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio, neu symbol yn tingcian. A phe byddai gennyf brophwydoliaeth, a gwybod o honof y dirgelion oll, a phob gwybodaeth; a phe bai gennyf yr holl ffydd, fel y gallwn symmudo mynyddoedd, ac heb gennyf gariad, nid wyf fi ddim. A phe porthwn y tlodion â m' holl dda, a phe rhaddwon fy nghorff i'm llosgi, ac heb gariad gennyf, nid yw ddim llefhad i mi*, 1 Cor. xiii. 1, 2, 3. A pha beth yw natur y cariad yma?

yma? Yr apostol a ddywed yn y gwersi canlynol, *Y mae cariad yn hir-ymaros, yn gymmwynasgar; nid yw yn cynfigennu; nid yw yn ymffrosllo, nid yw yn ymchwyyddo; nid yw yn gwneuthur yn anweddaiid; nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun; ni chythyryddir; ni feddwl ddrwg; nid yw lawen am anghyflawnder, ond cyd-lawenhau y mae â'r gwirionedd.* *Y mae yn dioddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn gobeithio'r goreu am bob dim, ac yn dodi'r lliw goreu a theccaf ar weithredoedd rhai eraill, ac yn ymaros â phob dim.* Dyma gynheddfau hanfodol gwir gariad. A phwy bynnag fyddo heb y cynheddfau yma, *nid yw efe ddim; nid yw o ddim cyfrif, eithr yn anghymmeradwy ger bron Duw.*

Pob un o ddinasyddion y Sion nefol a ddywed wir yn ei galon; heb absennu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymmydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog, Salm xv. 2, 3. Ond ymhoffi dywedyd yn erbyn dynion, a'u henllibio, sydd deilwng o etifeddon uffern yn unig, a'r union ffordd i ddisgyn i wared yno. O blegid y mae ein Harglywydd bendigedig, yr hwn a benderfyna gyflyrau tragicwyddol pawb, wedi dywedyd, *Pwy bynnag a ddywedo wrth ei frawd, O ynsyd, a fydd euog o dâr uffern,* Mat. v. 22. Yn awr, os gwir yw hyn ymherthynas i roddi tafod drwg i ddyn o flaen ei wyneb, pa faint mwy ymherthynas i'r cyfryw rai ag a 'speiliant ddynion o'u gair da heb wybod iddynt; a thrwy hynny a hauant hadau ymryson, a therfyng, a phob gweithred ddrwg? Iago iii. 16. Oddi allan i'r Jerusalem nefol y mae'r cwn—*a phob un ag sy'n caru, ac yn gwneuthur celwydd;*—*a bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan, yr hwn yw yr ail farwolaeth,* Dat. xxi. 8. xxii. 15.

IV. Cyfarwyddiadau pa fodd i ymgadw rhag y bai o enllib a drwg-absen.

I. Ymarferwch ag ystyried yn dda *cyn y llefaroch;* yn enwedig cyn y llefaroch er anglod i neb. Edrychwrch yn ofalus pa beth a ddywedoch, am bwy, ac wrth bwy, ac ar bwy achos, a pha un a bod gennych ddigon o alwad i wneuthur felly. Onid ê chwi a fyddwch mewn perygl mawr o lefaru llawer o bethau a'r na's dylafach,

ac y dymunwch yn ofer pe ni's dywedasech, wedi iddynt syned unwaith allan o'ch geneuau. Cedwch gan hynny wiliadwriaeth gysson ar *ddrwys eich gwefusau*. Nid o ran y dylech fod yn gwbl ddistaw, neu yn ofer-wagelog ar eich geiriau mewn cyfeillach: ond gofalu o honoch a'r fod yr hyn a ddywedoch yn ddiachos tramgwydd i neb; a pha fwyaf synhwyrol bywiog ac adeiladol a fyddo gyd â hynny, goreu i gyd.

Ac fel y byddo gennych ddigonedd o bethau da a buddiol i ymddiddan yn eu cylch, gwnewch ddefnydd diwyd o'r manteision sydd o fewn eich cyrhaeddyd, tu ag at drysori yn eich meddylliau amledd da o wybodaeth wafanaethgar; fel y galloch ddwyn allan o'ch trysorau bethau teilwng o greaduriaid rhesymmol, a theilwng o'ch proffes a'ch gobaith fel Crist'nogion. Astudiwch weithredoedd natur, rhagluniaeth, a gras; astudiwch bethau amser, a phethau tragicwyddoldeb; ac yn enwedigol astudiwch air Duw, a myfyriwch yn tho yn dra dyfal: mewn gair, astudiwch pa bethau bynnag sydd o duedd-iad i'ch gwneuthur chwi ac eraill yn ddoethach ac yn well. Dyma faes digon helaeth o'ch blaen chwi. Meddyliwch am y pethau hyn, soniwch am y pethau hyn yn rhudd ac yn eofn, etto yn gall, yn weddaidd, ac yn brydferth. Soniwch am y peth a fynnoch, yn hytrach nā gwendidau a beiau pobl eraill; y rhai y gwnaich yn dda beidio yngan am danynt byth, oddieithr eich bod yn gweled yn eglur ei fod yn ddyledswydd arnoch.

2. Pan fyddo gennych achos cyfawn i ddywedyd yn erbyn neb, edrychwch a'r fod yr hyn a ddywedoch yn *wirionedd sicr*. Pe cadwai dynion at y rheol hon, fe ddarfyddai am y rhan fwyaf o'r absennu ag sy' mor gyffredin yn y byd. Canys pan glywo dynion ryw newydd drwg, anfynych iawn y cymmerant boen i chwilio am y gwirionedd o hono, eithr yn ddiattreg hwy a'i credant ac a'i cyhoeddant; pan na byddo yn fynych iawn ond anwired yn gwbl oll. Ac yn wir nid yw hyn dim llawer gwell nā dyfeisio celwydd er niwaid i arall.

O Grifition, bydd dra gwagelog yn hyn o beth. Os bydd rhwymau arnat i ddwyn dy dystiolaeth yn erbyn dy gym-

gymmydog, bydd sicr o ddywedyd y gwir fel pe bait ar dy lŵ; o blegid y mae Duw yn bresennol, ac yn clywed y cwbl.

3. Pa beth bynnag a wypoch am eraill ag fo da a *chanmoladwy*, adroddweh hynny; yn enwedig pan alwer arnoch i ddywedyd rhywbeth yn eu herbyn, neu pan glywoch eraill yn gwneuthur felly. Nid yw hyn ond y peth sy' dêg, fel y gallo dynion farnu mor gywir a chyf-iawn am danynt ag y bo bosibl. Canys wrth son am ychydig o ffæleddau a gwendidau dyn yn unig, gellir peri iddo ymddangos mewn goleuni tra anfanteisiol, ac arwain y sawl fo'n clywed i feddwl yn ddrwg iawn am dano; pan, pe gwnait ag ef gyflawnder, trwy enwi hefyd ei rinweddau a'u gynheddfau da, yr ymddangosai yn wr gweddol, os nad gwych a rhagorol iawn. Ond bydded rhinweddau dyn ychydig neu lawer, y mae arnom ni rwymau i roddi iddynt y parch a'r canmoliaeth sydd ddyledus: ac fe all hynny fod yn annogaeth iddo i barhau a chynhyddu mewn daioni.

4. Ymogelwch rhag cymmeryd un math o *hoffder* mewn meddwl, dywedyd, neu glywed yr hyn a fyddo *drwg* am eraill. Ac i'r diben byn cedwch yn barhaus ar eich meddyliau ddwfn deimlad o fawr ddrwg pechod; tosturiwch wrth y cyfryw rai ag sy'n ymarfer ag ef, bydded yn ddrwg ac yn flin gennych o'u herwydd, a bernwch am eu cam-ymddygiad yn y modd mwyaf tynér ag a alloch. Yna pan glywoch, neu pan feddylioch am bechodau eich cyd-ddynion, e' fydd yn fatter o driftwch a gofid calon i chwi, ac yn debyccach o lawer o dynnu dagrau o'ch llygaid, na rhoddi i chwi y mesur lleiaf o blefer a boddlonrwydd. *Fy zel a'm disfaodd*, meddai'r Salmydd duwiol, o herwydd i'm gelynion anghofio dy eiriau di. *Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid, am na chadwasant dy gyfraith di*, Psal. cxix. 136, 139.

A dangoswch mor annymunol gennych yw newyddion drwg am eraill, trwy roddi pob digalondid posibl i'r sawl a fyddo yn eu dwyn: na wnewch ddim cyfrif o'u chwédlau athrodgar, dangoswch yn amlwg nad oes gennych ddim hoffder ynddynt, a cheryddwch y cyfryw am eu

henllib yn rhydd ac yn oneft. Ac yna onid iddynt fod yn awyddus i'ch blino drachefn: canys, fel y dywed y gwr doeth, megis ag y mae gwynt y gogledd yn gyrru y gwlaw ymaith, felly y gyrr wynebpryd diglon dafod athrodegar, Diar. xxv. 23.

5. Edrychwch yn ofalus attoch eich hunain. Cymmerwch boen i iawn adnabod eich gwendidau a'ch beiau eich hunain, ac yna ni byddwch chwi ddim mor barod i graffu ar eiddo rhai eraill, eithr chwi a fernwch yn dyner ac yn ffafrol am danynt. *Adnebydd dy bun*, sydd gyngor a berthyn yn enwedigol i'r dynion hynny ag fy'n dueddol o ddal sylw ar weithredoedd rhai eraill, ond yn ddiyfyr o'r eiddynt eu hunain. Ac i'r cyfryw rai y mae ein Iachawdwr yn rhoddi cerydd llym iawn, *Mat. vii. 3, 4, 5. Pa ham yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, ac nad ydwyt yn ystyried y trawst sydd yn dy lygad dy bun?* Neu pa fodd y dywedi wrth dy frawd, *Gad i mi fwru allan y brycheuyn o'th lygad; ac wele drawst yn dy lygad dy bun?* Oh ragrithiwr, bwrw allan yn gyntaf y trawst o'th lygad dy bun; ac yna y gweli yn eglur fwru y brycheuyn allan o lygad dy frawd.

Ymosodwch yngylch gwella yr hyn sydd feius ynoch eich hunain, a llafuriwch yn ddiwyd i ddefnyddio eich amser a'ch talentau trwy wneuthur daioni; a chwi a gewch weled y bydd hynny yn ddigon o waith i chwi.

6. Ac yn olaf. Ymrowch i gynhyddu mewn *cariad crif'nogol*. Coleddwch y llysieuyn nefolaidd yma, oddiar ba un y mae holl rinweddau hawddgar cymdeithas yn tarddu; a'r hwn ni wiwa ac ni heneiddia, ond a beri i flodeuo ac i ffrwythloni, tra y parhao **ANFARWOLDEB**. A pha fwyaf y bo i chwi gynhyddu mewn cariad, mwyaf parod y fyddwch i edrych ar ffaereddau rhai craill gyd â golwg dyner a thosturiol, i gyd-oddef â'u gwendidau, ac amddiffyn eu gair da, cyn belled ag y galloch; ac i roddi heibio bob twyll, a rhagritb, a chynfigen, a phob gogan-air, i Pedr ii. 1.

V. Ac yn olaf. Ychydig o gynghorion i'r sawl ag fo'n dioddef oddiwrth ddrwg absen dynion eraill.

Na fyddwch gwbl ddibris o'r hyn a ddyweder yn eich erbyn. Cymmerwch amser i'w ystyried yn bwyllog, i holi eich hunain, ac i chwilio eich tymmer a'ch ymddygiad, fel y galloch wybod yn sicr pa un a bod yr achwyniad yn wir, neu beidio.

Os cewch ei fod yn *wir*, chwi a ddylech edrych ar y fawl fo wedi eich cyhuddo o hono fel eich rhybuddiwr, yr hwn a ddichon fod o lawer o wasanaeth i chwi, er nad oedd yn ei amcanu*. Canys cymmwynas werthfawr i chwi yw dwyn i'ch golwg y bai hynny ynoch, ag yr oeddych o'r blaen yn ddieithr iddo; ac ysgatfydd a barhausai i fod yn ddieithr oni buasai eich gelyn. Pa fodd bynnag, wedi bod mor happus a dyfod i weled eich bai, cwmpywch yn ddioed ynglych ei wella; a byddwch wiliadwrus rhag rhoi lle iddo byth gwedi'n.

Os *ni* bydd yr hyn a ddyweder i'ch erbyn yn *wir*, gan fod yn sicr o hynny, cydnabyddwch yn ddiolchgar ddaioni rhagluniaeth Duw, a'i ras, trwy ba un y gallasoch ymgadw; tosturiwch wrth eich gwrthwynebwr, a gweddwwch a'r iddo gael maddeuant a'i ddwyn i well meddwl; a pharhewch i edrych attoch eich hunain, rhag ofn i chwi rhagllaw fod yn euog o'r pethau, ag y byddoch y pryd hyn yn cael eich cam-gyhuddo o'u plegid.

Y diweddar Mr. *Harvey* a fyddai yn arferol o ddywedyd, pan y byddai rhyw rai yn ei enllibio, neu'n cam-achwyn arno, "Ein gelynion weithiau yw ein cy-
 " feillion goreu, a dywedant wrthym bethau gwir; ac
 " yna ni a ddylem ddiwygio ein beiau, a bod yn ddi-
 " olchgar am y cyfryw hyspyrwydd: ac os ni bydd y
 " pethau a ddywedant yn *wir*, ond yn cael eu llefaru yn
 " unig trwy falais, yna y mae'r cyfryw personau i'w
 " hyftyried fel rhai allan o'u synhwyrau, a dylem weddio
 " drostynt. Dylid tosturio wrth y cyfryw, ond (medd
 " efe) y mae mor anghymmwys i mi ddigio wrthynt,
 " ac wrth ddyn am ei fod allan o hwyl yn ei gorff."

*—Fas est et ab hoste doceri.

Poethineb *yw i ddyn gymmeryd ei ddysgu gan elyn.*

Pan y byddo neb yn eich gogau yn anghyflawn, peidiwch a chymmeryd eich cythrudo a'ch cyffroi i dymherau drwg, eithr goddefwch y cam yn addfwyn ac yn llonydd. Os ymddangos a wnewch yn flin ac yn anesmwyth iawn o herwydd y gwaradwydd a dafler arnoch, chwi a rowch i ddynion le i feddwl eich bod mewn gwirionedd yn deilwng o hono. Chwi a rowch hefyd blefer mawr i'ch gwrthwynebwr, ac annogaeth iddo i geifio eich astonyddu fwy-fwy; ond os byddwch chwi yn esmwyth, fe a wel na thâl ei waith ef ddim; fe a gaiff ei siommi yn ei amcan drwg, a hynny a'i blina ef yn doft, ac fe allai a'i diwygia|. Ac heb law hyn, pa mor ddieuog bynnag y fyddoch o'r bai a ddoder i'ch erbyn, os bydd i'r brofedigaeth beri i chwi golli'r llywodraeth ar eich nwydau, fe ymddengys yn amlwg eich bod yn feius mewn un peth, sef am na bai gennych fwy o amynedd.

Na fydded i chwi lettya chwaith neb rhyw feddyliau maleisus, ymddialgar, tu ag at y fawl a ddywedo yn eich erbyn; ac na wnewch na cheisio nac ewyllyfio cael cyfe i dalu felly yn ol iddynt hwythau, nac i'w drygu mewn un ffordd na mesur. Argoel rhy amlwg ydyw o yspryd gwael, annoeth ac anynad. *Y diglon ei yspryd*, medd Salomon, *a dderchasa ynsydrwydd*; *a dig sydd yn gorlhwys* *ym mynwes ffyliaid*: ond *y diog i ddigofaint sydd yn llawn o fynwyr*; *a harddwch yw i ddyn fyned dros gamwedd**, Diar. xiv. 29. xix. 11. Preg. vii. 9.

|| Bydd ddioddefgar a chymmesur;
Na bydd boeth a thwym dy natur:
Godde gamwedd cyn cynhennu,
Y ddioddefodd, hwnnw orfu.

Llyfr Ficer.

* For every Trifle scorn to take Offence;
That always shews great Pride or little Sense.
Good Nature and good Sense must always join;
To err is human, to forgive divine.

Pope.

Ynfyd gwr a ry-ddigofo
Pan y rhoddir achos iddo;
Ynfyttach yw i wr ddigofni
Heb ddim achos yn ei beri.

Iago ab Dewi.

A thyma'r

A thyma'r ffordd i fod yn debyg i'r Duw bendigedig ei hunan, yr hwn sydd yn bwyrfrydig i ddig, a mawr o drugarogrwydd; yn maddeu anwired, a chamwedd a phechyd; ac yn ymddyrrchafu i dosfurio, ac yn disgwyl am le i drugarbau.

Ac fel hyn y mae i ni ddilyn esampl eanillgar ein Iachawdwr, yr hwn pan ddifenuwyd, ni ddifenwodd drachefn, pan ddioddefodd ni fygwthiodd; eithr a'i anadl diweddaf a weddiodd ar ei Dad am faddeu i'r rhai oedd yn ei ladd, gan enwi eu hanwybodaeth fel esgus am eu pechyd; a'r hwn sydd yn gorchymwyn i ninnau, os ewyllysiwn fod yn ganlynwyr derbyniol iddo ef, i garu ein gelynion, i fendiffio y rhai a'n melldithiant, i wneuthur da i'r sawl a'n casant, a gweddio dros y rhai a wnel niwaid i ni, ac a'n herlidiant, Mat. v. 44.

Rhyw wr a ofynnodd i un o'r philosophyddion cenhedlig*, pa ffordd oedd oreu iddo ddial ar ei elynion, ynteu a'i hattebodd, "Trwy fod dy hunan yn ddyn da 'onest.' Chwithau, grist'nogion, ellwch, ac a ddylech, gymneryd y ffordd yma i ddial eich cam; ond na chydcammwch ag un arall. Byddwch ofalus i arwain bywydau glân, cyflawn a da, ac i ddiogelu énw a gaic da, trwy ddyfal barhau yn gwneuthur daioni; a thyma'r ffordd fwya tebygol i ostegu anwybodaeth dynion ffalion, *I Pedr ii. 15.*

Ac os bydd rhyw un, er hynny, cynddrwg ac mor faleisus a gwaradwyddo eich enw da, chwi ellwch ddywedyd, fel y cynghorai un o'r cenhedloedd†, "Bydded iddo fe edrych atti: arno ef y mae'r bai, nid arnaf fi. Mewn perthynas i mi, yr ydwyf yn gwneuthur yr hyn a ddylwn." Os ydych chwi yn gwneuthur eich dyledswydd, na wnewch ddim cyfrif o neb o'r pethau hyn; ond gosodwch eich ymddiried yn yr Arglwydd, yr hwn a ddadleu drosoch mewn amser cyfaddas; a llawenhewch mewn gobaith o'i addewidion ef; canys gwyn eich byd pan y'ch gwaradwyddant, ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn (yn enwedig os bydd er mwyn Crist) a hwyl yn gelwyddog: byddwch lawen a hyfryd, canys mawr yw eich gwobr yn y nefedd.

BOOKS lately published and Sold by J. Ross,
Printer, CARMARTHEN.

A New English-Welsh DICTIONARY; containing All Words necessary for reading an English Author, wherein not only Corresponding British is given to the English, and the various Significations properly ranged; but also every Word is accented to prevent a bad Pronunciation, the Part of Speech added to which each Word respectively belongs, and proper Authorities subjoined. By the Rev. Wm. EVANS. Price 5s.

This Work has been approved by the best Judges, and is recommended to all such as are desirous of reading English Authors, but have not a competent knowledge of the language, or are defective in Pronunciation.—It may also be of great service to young Divines, who are obliged to officiate in the Welsh Language, but have had their education at the Universities, or other Seminaries of learning, where only the English and learned languages are studied.—The tradesman likewise must find a work of this kind extremely serviceable, as all commerce is carried on in English, which at first must be difficult to a Cambro-Briton, without the assistance of an English-Welsh Dictionary.

HUNAN-ADNABYDDIAETH; neu Draethawd yn dangos Natur a Mantais y cyfryw Wybodaeth bwysfawr, a'r Ffordd i'w chyrhaeddyd: Ynghymmysg ag amryw o Ystyriaethau ar y Natur ddynol. Yn Saesonaeg gan y Parchedig JOHN MASON, ac yn Gymraeg gan y Parchedig JOSIAH REES. Pris 1s.

CANWYLL Y CYMRY: sef Gwaith y parchedig Mr. REES PRICHARD, gynt Ficer *Llanymddyfri*. At ba un y chwanegwyd amryw Ganiadau o waith yr un Awdwr, a dynnwyd allan o Lofion y parch. GRIFFITH JONES, *Llanddowror*. Ac hefyd y mae Rhagymadrodd rhagorol y parch. Mr. STEPHEN HUGHES yn gynhwysedig yn hwn, na bu argraffedig yn un o'r Argraffiadau diweddaf. Pris 2s. 6d. wedi ei rwymo.

GOLWG FERR ar yr hanes ysgrythurol, gan Dr. WATTS. Pris 2s. 6ch.

CANIADAU DWYFOL i Blant, gan Dr. WATTS. Pris 3c.

MESURWR CYFFREDINOL, neu Gyfarwyddiad i Grefftwwyr: Ymha un y cynhwysfir amryw Dablaus wedi eu casglu yn barod at lawer o achosion, yn enwedig i fesur coed, gan MATHEW WILLIAMS, Mesurwr Tir, *Llangadog*. Pris 1s. wedi ei rwymo.